# Deddf Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) 2023

**2023 dsc 2**

*Trosedd*

## 5 Y drosedd o gyflenwi cynhyrchion plastig untro gwaharddedig

(1) Mae person o ddisgrifiad y cyfeirir ato yn is-adran (2) ("P") yn cyflawni trosedd os yw'r person hwnnw—

(a) yn cyflenwi (ynglŷn â hynny gweler is-adran (3)) gynnyrch plastig untro gwaharddedig i ddefnyddiwr sydd yng Nghymru, ac mae hyn yn cynnwys trefnu i ddanfon y cynnyrch at ddefnyddiwr mewn cyfeiriad yng Nghymru;

(b) yn cynnig mewn mangre yng Nghymru (ynglŷn â hynny gweler is-adran (4)) cyflenwi cynnyrch plastig untro gwaharddedig i ddefnyddiwr.

(2) Y disgrifiadau o berson a all gyflawni trosedd o dan yr adran hon yw—

(a) corff corfforedig (gan gynnwys corff sy'n arfer unrhyw swyddogaeth o natur gyhoeddus);

(b) partneriaeth;

(c) cymdeithas anghorfforedig;

(d) person sy'n gweithredu fel unig fasnachwr.

(3) Mae P yn cyflenwi cynnyrch plastig untro gwaharddedig os yw P, neu unrhyw berson sy'n atebol i P—

(a) yn gwerthu'r cynnyrch, neu

(b) yn darparu'r cynnyrch am ddim.

(4) Mae P yn cynnig cyflenwi cynnyrch plastig untro gwaharddedig os yw P, neu unrhyw berson sy'n atebol i P—

(a) yn arddangos y cynnyrch yn y fangre, neu

(b) fel arall yn cadw'r cynnyrch yn y fangre yn y fath fodd fel ei fod yn hygyrch i ddefnyddiwr, neu ar gael i ddefnyddiwr, yn y fangre.

(5) Mae person yn atebol i P—

(a) os yw'r person hwnnw—

(i) yn gyflogai i P,

(ii) â chontract ar gyfer gwasanaethau gyda P,

(iii) yn asiant i P, neu

(iv) fel arall yn ddarostyngedig i reoli, rheolaeth neu oruchwyliaeth P, a

(b) os yw'r person hwnnw—

(i) yn gweithredu yng nghwrs busnes, crefft neu broffesiwn P,

(ii) yn gweithredu mewn perthynas ag arfer swyddogaethau P gan P,

(iii) yn gweithredu mewn perthynas ag amcanion neu ddibenion P, neu

(iv) fel arall yn gweithredu o dan reoli, rheolaeth neu oruchwyliaeth P.

(6) Pan ddangosir bod P wedi trefnu i ddanfon cynnyrch at ddefnyddiwr mewn cyfeiriad yng Nghymru cymerir bod y cynnyrch wedi ei gyflenwi gan P i'r defnyddiwr hwnnw hyd yn oed os (am ba reswm bynnag)—

(a) danfonwyd y cynnyrch i gyfeiriad gwahanol, neu

(b) na ddanfonwyd y cynnyrch i unrhyw gyfeiriad hysbys.

(7) Mewn achos am drosedd o dan is-adran (1), mae'n amddiffyniad i P ddangos bod P wedi arfer pob diwydrwydd dyladwy ac wedi cymryd pob rhagofal rhesymol i osgoi cyflawni'r drosedd.

(8) Cymerir bod P wedi dangos bod P wedi arfer pob diwydrwydd dyladwy ac wedi cymryd pob rhagofal rhesymol i osgoi cyflawni'r drosedd—

(a) os dygir tystiolaeth ddigonol o hyn i godi mater yn ei gylch, a

(b) os na phrofir i'r gwrthwyneb y tu hwnt i amheuaeth resymol.

(9) Mewn achos am drosedd o dan is-adran (1), bydd honiad bod cynnyrch yn gynnyrch plastig untro o fath a restrir yng ngholofn 1 o'r Tabl ym mharagraff 1 o'r Atodlen yn cael ei dderbyn fel ei fod wedi ei brofi yn absenoldeb tystiolaeth i'r gwrthwyneb.

(10) Pan gyflenwir dau neu ragor o gynhyrchion plastig untro gwaharddedig, neu pan gynigir cyflenwi dau neu ragor o gynhyrchion plastig untro gwaharddedig, gyda'i gilydd, at ddibenion is-adran (1) mae hyn i'w drin fel un weithred gyflenwi, neu gynnig i gyflenwi, cynnyrch plastig untro gwaharddedig.

(11) Yn yr adran hon, ystyr "defnyddiwr" yw unigolyn sy'n gweithredu at ddibenion sy'n gyfan gwbl neu'n bennaf y tu allan i grefft, busnes neu broffesiwn yr unigolyn hwnnw (pa un ai'r unigolyn a brynodd y cynnyrch ai peidio).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 5 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 22(2)**

**I2** A. 5 mewn grym ar 30.10.2023 gan O.S. 2023/1149, **ergl. 2(c)**

## 6 Trosedd: dull treial a chosb

Mae person sy'n euog o drosedd o dan adran 5 yn agored ar euogfarn ddiannod i ddirwy.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I3** A. 6 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 22(2)**

**I4** A. 6 mewn grym ar 30.10.2023 gan O.S. 2023/1149, **ergl. 2(d)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) 2023, Croes Bennawd: Trosedd.